



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Teipiwch y cyfeiriad lleol yma/
Cwrt Cantref, Heol Aberhonddu, Y Fenni,
NP7 7AX

Ebost/Email:
andrea.davies@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone: 01873 737008

Ymgynghoriad Amddiffyn Asedau Cymuned
Llywodraeth Cymru
Adran Cymunedau
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

10 Medi 2015

Annwyl Syr

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Amddiffyn Asedau Cymuned

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella, a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 yn rhoi dyletswyddau i Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â mynediad a hamdden, safleoedd hanesyddol a lles – yn benodol, iechyd a lles cymdeithasol unigolion a chymunedau, a lles economaidd unigolion, busnesau a chymunedau. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad yn seiliedig ar y dyletswyddau penodol hyn.

Rydym yn cytuno bod trosglwyddo asedau sy'n eiddo cyhoeddus neu breifat, y bwriedir eu cau neu eu gwerthu, i gymunedau yn gallu dwyn buddiannau cryf. Gall rheoli cymuned hefyd agor llawer mwy o ffynonellau cyllid a chymorth nag sydd ar gael i'r sector cyhoeddus neu breifat. Pan fo adnoddau cysylltiedig ar gael i gynnal hyn, rydym yn llwyr gefnogi modelau sy'n grymuso cymunedau ac yn diogelu asedau lleol o'r fath. Fodd bynnag, gan fod *tir gweithredol* (megis y rhai a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru) yn bodloni nifer o amcanion strategol poblogaeth ehangach, mae'n bwysig bod ymarferyddion statudol yn parhau i wneud y gwaith o reoli yn bennaf - oni bai bod tir o'r fath yn cael ei nodi'n dir y dylid cael gwared ohono.

Nid yw hyn, mewn unrhyw ffordd, yn atal ymgymeryddion statudol rhag cydweithio gyda chymunedau i gefnogi grymuso cymunedau a chyfranogiad, er mwyn cynyddu cydlyniant a chydnerthedd cymunedol. Un dull gweithredu i hwyluso gweithgaredd o'r fath yw cynllun Mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i fod yn *berchen* ar ased er mwyn dylanwadu ar ei reolaeth a chyflawni amcanion cymunedol. Dylai trosglwyddo asedau fod yn un o

amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn sicrhau bod asedau sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat yn parhau i gyfrannu at les a datblygiad cymunedau.

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion hyn.

Yn gywir,



Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Ymgynghoriad Amddiffyn Asedau Cymuned Llywodraeth Cymru Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Enw:	
Cwestiwn 1 – Ydych chi o'r farn bod y diffiniad o Asedau o Werth Cymunedol Ydw Nac ydw sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 yn briodol ar gyfer amddiffyn asedau yng Nghymru? <input checked="" type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>	
Nodwch eich rhesymau dros eich ateb.	
Diffiniad Rydym yn fodlon ar y diffiniad yn Neddf Lleoliaeth 2011, h.y. <i>mae adeilad neu dir arall mewn ardal awdurdod lleol o werth cymunedol os yw'r awdurdod o'r farn bod y defnydd pennaf a wneir ohono ar y pryd (neu'r defnydd a wnaed ohono yn y gorffennol diweddar) yn hybu lles neu fuddiannau cymdeithasol y gymuned leol. Mae'r diffiniad yn cynnwys tir ac adeiladau, ac mae'n ofynnol i ystyried ei brif ddefnydd a'i fudd i'r gymuned leol gyfan. Byddem yn argymhell bod coetiroedd, pyllau ac ardaloedd gwyrdd yn cael yr un pwyslais manwl ag adeiladau – maent yr un mor bwysig o ran ffurfio hunaniaeth cymuned a naws am le.</i>	
Ymgymeryddion Statudol a Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae tir neu eiddo preswyl neu dir neu eiddo gweithredol statudol yn eithriedig rhag cael eu rhoi ar y gofrestr Asedau o Werth Cymunedol. Caiff "tir gweithredol" ei ddiffinio yn adran 263 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud ag "ymgymeryddion statudol": (a) tir a ddefnyddir ar gyfer cynnal eu gwaith; a (b) tir lle mae diddordeb mewn cynnal gwaith. Diffinnir Cyfoeth Naturiol Cymru fel "ymgyferydd statudol" at y diben hwn gan adran 262(3) a (4) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli asedau llyfoggydd, 42 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, y 120,000 hectar o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, a pum canolfan ymwelwyr yn rhan o'i waith – sef 7% o arwynebedd tir Cymru. Byddai pob un ohonynt yn cael eu rhoi yn nosbarthiad "tir gweithredol" sy'n darparu amryfal wasanaethau a buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nid oes un "prif ddefnydd". Yn dilyn y model sy'n cael ei weithredu yn Lloegr, byddai tiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn eithriedig rhag cael eu dynodi fel Asedau o Werth Cymunedol – oni bai eu bod yn cael eu nodi i fod yn addas i'w gwerthu neu gael gwared ohonynt. Rydym yn argymhell bod Cymru'n mabwysiadu'r model hwn.	
Ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i Gymunedau ac Adfywio Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi ein hymrwymiad i " <i>weithio gyda chymunedau lleol i gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar y lle, a datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'n gilydd drwy ddefnyddio egwyddor perchenogaeth gymunedol a chyd-gynhyrchu, yn enwedig y rhai sy'n agos i'r tir a'r dŵr rydym yn eu rheoli</i> ". Mae ymrwymadau strategol yn pwysleisio ein nod blaenoriaethol i fuddsoddi mewn adnoddau er mwyn darparu buddiannau i gymunedau. Yn benodol:	
<ul style="list-style-type: none">• Gweithio'n agosach mewn partneriaeth â chymunedau – gwrandao ar ddinasyddion lleol a gweithio gyda dinasyddion lleol, gan gynnwys pobl o grwpiau nodweddion gwarchoddedig, a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cymunedau mwyaf difreintiedig• Canolbwyntio ein gweithgareddau datblygu mynediad a hamdden ar y safleoedd hynny sydd fwyaf poblogaidd gyda phobl, neu sydd yn ein cymunedau tlotaf	

- Hyrwyddo manteision economaidd ein gwaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau eraill gyda thystiolaeth o amddifadedd
- Darparu cyfleoedd dysgu a sgiliau, cyngor ac arweiniad, yn yr amgylchedd ac yn ymwneud â'r amgylchedd, gan gynnwys ymweliadau ar gyfer pobl o bob oed a gallu, ac yn enwedig ar gyfer pobl ifanc

Camau gweithredu yn ein cyfres o Gynlluniau Galluogi Da i Bobl (Hamdden a Mynediad; Cymunedau ac Adfywio; Addysg a Sgiliau) gan nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer timau ar draws y sefydliad Cafodd y cynlluniau eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol, ac maent yn rhannu egwyddorion cyffredin a throsfwaol:

- Mae ein gwaith gyda chymunedau yn cael ei gynnal o fewn fframwaith rheoli adnoddau naturiol, gan sicrhau'r buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf posibl
- Mae rhaglenni gwaith yn cael eu datblygu a'u darparu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Rydym yn defnyddio dull gofodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar waith sydd o'r budd lluosog pennaf i bobl a chymunedau – yn enwedig y rhai yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Cwestiwn 2 – Rhowch eich barn ar y tri chwestiwn canlynol

1 – A ddylai cofrestri Asedau Cymunedol gael eu gweinyddu ar lefel genedlaethol neu gan awdurdodau lleol?
(Ticiwch un blwch)

Cenedlaethol **Lleol**

Byddai un gofrestr genedlaethol o asedau cymunedol yn sicrhau cysondeb a chydlyniaid wrth reoli, ac yn darparu cronfa ddata gofodol a chwiliadwy.

2 – A ddylai cymunedau gael pŵer i gychwyn trosglwyddo asedau o gyrff sector cyhoeddus?
(Ticiwch un blwch)

Dylai

Na ddylai

Fodd bynnag, dylai amrywiaeth o ddewisiadau ychwanegol posibl, a dewisiadau wedi'u teilwra, fod ar gael – yn enwedig ar gyfer ymgymeryddion statudol, ond nid ar gyfer ymgymeryddion statudol yn unig – gweler yr ymateb i C3 isod.

3 – A ddylai cymunedau gael mwy o gyfle nag yn Lloegr i wneud cais a phrynu asedau cymunedol sy'n eiddo preifat pan gânt eu rhoi ar werth ("cynnig cyntaf")?
(Ticiwch un blwch)

Dylai

Na ddylai

Cwestiwn 3 – Pa un yw eich hoff ddewis ar gyfer datblygu Model Asedau o Werth Cymunedol yng Nghymru?

Ar gyfer perchnogion asedau sector preifat a chyrrff cyhoeddus nad ydynt yn ymgymeryddion statudol – **DEWIS C**

A

B

C

Ar gyfer ymgymeryddion statudol – **DEWIS A** – ond gyda gofyniad clir i sefydlu cynllun mynediad i'r cyhoedd ac i roi "cynnig cyntaf" i gymunedau brynu asedau a nodwyd i gael gwared ohonynt, lle bynnag y bo'n briodol ac yn bosibl.

Mae angen amrywiaeth o ddewisiadau ychwanegol arnom sy'n gallu darparu ar gyfer pob graddfa, wedi'u teilwra at wahanol berchnogaeth, gallu ac adnoddau.

Ar gyfer eich atebion i gwestiynau 2 a 3, nodwch pam eich bod wedi ateb fel hyn.

Rheoli Asedau Cymunedol – Amrywiaeth o Fodelau

Gall trosglwyddo asedau sy'n eiddo cyhoeddus neu breifat, y bwriedir eu cau neu eu gwerthu, i gymunedau gyflwyno buddiannau cryf. Gall rheoli cymuned hefyd agor llawer mwy o ffynonellau cyllid a chymorth nag sydd ar gael i'r sector cyhoeddus neu breifat. Pan fo adnoddau cysylltiedig ar gael i gynnal hyn, rydym yn llwyr gefnogi modelau sy'n grymuso cymunedau a diogelu asedau lleol o'r fath. Fodd bynnag, gan fod *tir gweithredol* (megis y rhai a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru) yn bodloni nifer o amcanion strategol poblogaeth ehangach, mae'n bwysig bod ymarferyddion statudol yn parhau i wneud y gwaith o reoli yn bennaf – oni bai bod tir o'r fath yn cael ei nodi y dylid cael gwared ohono.

Nid yw hyn, mewn unrhyw ffordd, yn atal ymgymeryddion statudol rhag cydweithio gyda chymunedau i gefnogi grymuso cymunedau a chymryd rhan mewn cynyddu cydlyniant a chydnerthedd cymunedol. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i fod yn *berchen* ar ased er mwyn dylanwadu ar ei reolaeth a chyflawni amcanion cymunedol. Dylai trosglwyddo asedau fod yn un o amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn sicrhau bod asedau sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat yn parhau i gyfrannu at les a datblygiad cymuned.

Cynllun cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yw [Coetiroedd a Chi](#), ac fel rhan ohono, gall cymunedau gynnig a chynnal ystod eang o fentrau – o brosiectau tymor hwy, mentrau a chynlluniau hyfforddi, i weithgareddau a digwyddiadau unwaith. I gael ei ymestyn yn fuan i'r holl asedau a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, bydd y cynllun yn cael ei ail-frandio a'i hyrwyddo fel "Mynediad" yn gynnar yn 2016. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i adeiladu ar y cynllun a gwella'r cymorth cyflawni. Er bod y cynllun yn gallu cynnwys gwaredu drwy brydlesu a gwerthu, caiff y mwyafrif helaeth o weithgareddau eu cefnogi heb drosglwyddo asedau, drwy drwyddedau a chytundebau rheoli a chydweithio. Gall cymunedau a mentrau cymdeithasol yn aml gyflawni mwy o fuddiannau cymunedol nag y gall Cyfoeth Naturiol Cymru trwy gymryd rhan, ac rydym yn awyddus i ymestyn y cyfleoedd hyn. Sicrheir bod asedau ar gael i gymunedau eu defnyddio ac i fod o fudd iddynt – a chânt eu diogelu o ran perchnogaeth gyhoeddus os bydd prosiectau neu grwpiau yn methu.

Rydym yn gweithio'n agos gydag ymgeiswyr i gyrraedd yr atebion gorau er mwyn bodloni eu nodau. Mae rhai grwpiau yn dechrau gyda thrwydded gweithgaredd sylfaenol, ac yna symud ymlaen i gytundeb rheoli, gan gymryd mwy o ran wrth i gynlluniau a syniadau ddatblygu.

Enghreifftiau o gynlluniau ar sail tir gyda chymorth cytundebau rheoli Coetiroedd a Chi (noder – gellir cynnwys adeiladau hefyd):

- [Mae Golygfa Gwydir](#) yn fenter gymdeithasol yn Llanrwst. Ymhlith eu gweithgareddau amrywiol, mae gan y grŵp gytundeb rheoli gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safle 15 hectar yng Nghoedwig Gwydir. Mae hwn yn cysylltu i'r dref ac adeilad cymunedol y grŵp trwy lwybr cerfluniau Llwybr y Ceirw a llwybrau mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru. O fewn y safle, mae'r grŵp wedi datblygu'r Caerdroia - llwybr labyrinth milltir o hyd, lle perfformio awyr agored, man dysgu awyr agored, a pherllan gofrestredig. Mae aelodau o'r gymuned ac ymwelwyr yn rhydd i ddefnyddio'r lle i gerdded y llwybr a mwynhau amgylchedd y goedwig.

- Mae WiseWoods Cymru yn fenter gymdeithasol wedi'i lleoli mewn coetiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ychydig i'r de o Aberystwyth. Gyda chynllun rheoli coetir wedi'i gytuno, mae'r grŵp yn dod â'r coetir yn ôl i gyflwr ecolegol da a hefyd yn darparu hyfforddiant achrededig, masnach, gwirfoddolwyr, a dyddiau gweithgarwch teuluol.
- Mae grŵp cymunedol Coed y Bont ym Mhontrhydfendigaid wedi gosod rhwydweithiau llwybrau troed, safleoedd picnic, a blychau adar, ystumod a phathewod yn eu coetir lleol a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru – gan godi miloedd o bunnoedd i gefnogi'r gwaith. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ym mhob agwedd o arolygon cynnal a chadw a rheoli cadwraeth.
- Yn y rownd trosglwyddo asedau cymunedol diwethaf, [roedd Grŵp Coedwig Gymunedol Longwood](#) yn llwyddiannus yn ei gais am arian i brynu Longwood Llywodraeth Cymru am werth llawn y farchnad (gan ddefnyddio'r broses Coetiroedd a Chi). Mae bellach yn cael ei reoli fel menter gymdeithasol er budd y gymuned, gan ddarparu swyddi lleol a chefnogi mentrau lleol.

Rydym wedi ein cyfyngu gan berchenogaeth tir (mae rhai o Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ar brydles), a'r defnydd lluosog o'r safleoedd rydym yn eu rheoli, felly, fel arfer, gall prydlesu a gwerthu ond eu hystyried:

- Pan fo'r tir neu'r adeilad dan sylw yn rhydd-ddaliad;
- Pan fo diddordeb cyfyngedig gan randdeiliaid presennol yn y tir neu'r adeilad;
- Pan fo'r tir naill ai mewn bloc ar ben ei hun neu ar ymyl bloc mwy o faint gyda llwybrau mynediad ei hun;
- Mae'n amlwg mai dim ond trwy brydlesu neu brynu'r coetir y gellid bodloni cynlluniau'r ymgeisydd, ac y byddai cytundeb rheoli neu drwydded yn amhriodol.

Mae'r grŵp Coed y Bont wedi nodi sylwadau defnyddiol mewn [astudiaeth achos Llais y Goedwig](#) yn ymwneud â'r model cydweithredol a gynigir gan Coetiroedd a Chi:

“Un o fanteision sylweddol y cytundeb rheoli yw'r fantais o fynediad parod at arbenigedd, cyngor a gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn llawer o feysydd perthnasol heb unrhyw gost i ni. Ni ellir dweud yn gynnig am bwysigrwydd yr holl gymorth hwn. Yn amlwg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar goetiroedd Llywodraeth Cymru yn cael ei wneud yn dda, ei fod o ansawdd da, a bod gwaith rheoli angenrheidiol yn cael ei wneud. Fodd bynnag, heb y mewnbynnau hyn, mae'n anodd gweld sut y byddai ein nod o wella mynediad yn y ffordd roeddem wedi'i rhagweld wedi gallu cael ei gyrraedd. Yn sicr, nid oes gennym yr arbenigedd hwn yn fewnol, a byddai ei brynu wedi bod yn gostus iawn ac wedi golygu codi llawer mwy o arian i ni.

Un o brif fanteision cael coetir cymunedol mewn coetir Llywodraeth Cymru yw nad ydym wedi'n llethu gan gyfrifoldebau perchnogaeth eiddo coetir, megis costau rheoli coedwrol, y rhwymedigaethau iechyd a diogelwch ac yswiriant cysylltiedig, a'r atebolrwydd cyfreithiol.”

Cwestiwn 4 – Pa faterion yn ymwneud ag adnoddau (gan gynnwys costau a chefnogaeth gymunedol) sydd bwysicaf yn eich barn chi o ran diogelu asedau cymunedol?

1. **Datblygu a rheoli adnoddau** – mae'n hanfodol bod adnoddau datblygu a rheoli ar gael i

gymunedau sy'n ystyried cymryd y gwaith o reoli asedau cymuned – cymorth ariannol, cyngor ac arweiniad arbenigol. Mae adnoddau o'r fath (yn enwedig gan gyrrff cyhoeddus) yn gynyddol brin. Os yw perchnogion yn gwaredu asedau am nad ydynt yn cynhyrchu incwm neu heb refeniw, gall fod yn anodd i gymunedau newid pethau a'u gwneud yn hunangynhaliol. Mae'r mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn dibynnu'n drwm ar grant. Bydd yn ddiddorol gweld gwerth y swydd Swyddog Cymorth Trosglwyddo Asedau Cymunedol ym Mlaenau Gwent a ariennir am un flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Bydd yn hanfodol ymestyn y Pecyn Cymorth Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a diwylliant er mwyn creu pecyn adnoddau cyffredinol ar gyfer pob math o asedau – neu ddatblygu cyfres. Mae angen arweiniad clir ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cymunedau a pherchnogion asedau mewn unrhyw broses drosglwyddo.

- 2. Annhegwch cymdeithasol** – mae'r ymgynghoriad yn cydnabod annhegwch yng Nghymru – mae cymunedau mwy llewyrchus yn fwy tebygol o allu manteisio ar unrhyw gynllun sy'n gorfodi perchnogion tir i roi cynnig cyntaf iddynt, ond mae cymunedau difreintiedig yn llai tebygol o fod mewn safle i symud ymlaen yn gyflym. Fe all unrhyw fesur newydd ofyn bod awdurdodau lleol neu sefydliadau gwirfoddol yn cael cofrestru ased ar ran cymunedau gyda lefel uwch o amddifadedd mesuradwy a ble ceir diffyg o ran mynediad at fan gwyrdd.
- 3. Cynaliadwyedd** – bydd angen i unrhyw broses drosglwyddo gynnwys asesiad o strwythurau cyfreithiol grwpiau cymunedol a'u gallu i fod yn hunangynhaliol. Bydd sicrwydd cyllid hir dymor ar gyfer rheoli asedau ac amddiffyn y rhai sy'n eu defnyddio yn hanfodol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'r beichiau ariannol ac ymarferol a orfodir gan deddfwriaeth lechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Deddfau Atebolrwydd Meddianwyr, achrediad Cynllun Gwarant Coetiroedd y DU, a chymwysterau Rheolwr Gwaith Coedwig (mewn perthynas â choetiroedd), a lefel o arbenigedd naill ai o fewn neu ar gael yn rhwydd i grwpiau am y rhain ac am faterion cyfreithiol eraill.
- 4. Methiant prosiect a newid perchnogaeth** – os bydd grwpiau cymunedol yn mynd i'r wal, a fydd darpariaethau'n cael eu gorfodi ar ail-werthu'r ased? A ddylai'r awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus gael y cynnig cyntaf i ail-brynu'r ased? Sut yr ymdrinnir ag elw ar ail-werthu? Oes angen darpariaethau cymryd yn ôl ar gyfer ail-ddatblygu neu gymalau defnyddwyr i gyfyngu grwpiau i ddefnyddio'r ased at y diben y bwriadwyd ei ddefnyddio'n wreiddiol?

Cwestiwn 5 – Oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn? Os felly, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Dylai trosglwyddo asedau fod yn un o amryw o ddewisiadau – a dim ond ar gyfer cymunedau sydd â mynediad at sgiliau ac adnoddau mae ar gael – mae'n ymrwymiad sylweddol mewn amryw o ffyrdd i gymryd rheolaeth o adnodd cyhoeddus. Dylai unrhyw arweiniad a deddfwriaeth sicrhau hygyrchedd, gallu o ran graddfa, cydweithrediad, a darpariaeth systemau cymorth digonol. Mae ffyrdd ar wahân i drosglwyddo uniongyrchol o sicrhau bod asedau sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat yn cyfrannu at les a datblygiad cymunedol – ni fydd yn briodol ar gyfer pawb.